

3 Radio a chynnwys sain

3.1 Datblygiadau diweddar yng Nghymru

Mae'r amblecs digidol lleol ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru wedi cael ei lansio

Ym mis Rhagfyr 2014, cafodd yr amblecs digidol lleol ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru ei lansio, gan ddarlledu BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales, Capital FM, Smooth Radio, Nation Radio, a Nation Hits o drosglwyddyddion yn Arfon a Chonwy i gynulleidfa bosib o 100,000 o wrandawyr.

Oherwydd cyfyngiadau rhyngwladol ar amleddau, mae'r ddau drosglwyddydd ar ddau amledd gwahanol, gydag Arfon ar 10D a Chonwy ar 12D. Efallai y bydd ambell radio car yn cael trafferth newid yn ddynamig o un trosglwyddydd i'r llall; un ffordd o fynd o gwmpas hyn yw i ddefnyddwyr ragosod eu radio ar gyfer eu hoff orsafoedd – un ar gyfer pob trosglwyddydd.

Mae'n bosib y bydd mwy o drosglwyddyddion yn cael eu lansio ganol 2016 yng Ngwaunysgor, Ynys Lawd Caergybi, Llanddona, Nebo a Phenmaen Rhos. Byddai'r rhain yn cynyddu'r ddarpariaeth DAB leol i bron i 70% o'r boblogaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Cyn y lansiad, roedd Global Radio wedi rhoi gwybod i MuxCo nad oedd am i'r ddau o'i wasanaethau Capital FM lleol gael eu cludo ar yr amblecs. Mae gwasanaeth Capital FM (Arfordir Gogledd Cymru) yn cael ei gludo, ond ddim gwasanaeth Capital FM (Caernarfon), sy'n darlledu mwy o raglenni drwy gyfrwng y Gymraeg.

Newidiadau ym maes darlledu radio masnachol

Ar 11 Chwefror, rhoddodd yr orsaf fasnachol leol Radio Hafren, a oedd yn dal y drwydded fasnachol leol ar gyfer Sir Drefaldwyn, y gorau i ddarlledu. Nid oes cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i ail-hysbysebu'r drwydded.

Ym mis Ebrill 2015, rhoddodd Heart North Wales y gorau i ddarlledu ar amblecs digidol lleol Wrecsam, Caer a Lerpwl. Bydd modd i wrandawyr barhau i wrando ar Heart North Wales drwy diwnio eu radio i FM neu wrando ar-lein.

Cafodd ceisiadau newid fformat eu cymeradwyo ar gyfer pump o wasanaethau Town & Country Broadcasting yng Nghymru. Erbyn hyn, gall Radio Pembrokeshire, Radio Carmarthen a Radio Ceredigion rannu hyd at 12 awr o gynnwys wedi'i wneud yn lleol rhyngddynt, ac mae modd rhannu pob rhaglen rhwng Nation Hits a Bridge FM. Nid yw cymeriad y gorsafoedd wedi newid.

Datblygiadau o ran darlledu radio cymunedol

Ym mis Mai 2012, fel rhan o'i drydedd rownd o drwyddedu radios cymunedol, rhoddodd Ofcom drwydded i Radio Beca wasanaethu cymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a gogledd Sir Benfro, gan ddarparu'r rhan fwyaf o'r cynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel arfer, mae angen i orsafoedd ddechrau o fewn dwy flynedd i'r drwydded gael ei dyfarnu; rhoddwyd estyniad i Radio Beca, ond nid yw wedi llwyddo i gael ei gwasanaeth ar yr awyr. Tynnodd Ofcom y cynnig o'r drwydded yn ôl ym mis Mai 2015.


3.2 Argaeledd gwasanaethau radio

Mae 45 o orafodd DAB ar gael ledled Cymru

Ar draws y pump amblecs digidol masnachol lleol sy'n darlledu yng Nghymru, mae 45 o orsafoedd digidol ar gael; nifer ohonynt yn gyd-ddarllodiadau o orsafoedd analog yn yr un ardal. Mae gwasanaethau DAB lleol ar gael i 63% o gartrefi Cymru.

Mae un orsaf fasnachol leol analog yn llai eleni gan fod Radio Hafren wedi rhoi'r gorau i ddarlledu ers mis Chwefror 2015.

Ffigur 3.1 Argaeledd gorsafoedd radio yng Nghymru



Ffynhonnell: Ofcom, Ebrill 2015


Nodyn: Mae'r siart hwn yn dangos y nifer fwyaf o orsafoedd sydd ar gael; mae amrywiadau lleol a materion yn ymwneud â derbyniad yn golygu na fydd gwrandawyr o reidrwydd yn gallu cael gafael ar y rhain i gyd

3.3 Darpariaeth DAB

Mae amblecs DAB cenedlaethol y BBC yn cyrraedd bron i naw ym mhob deg o gartrefi Cymru

Mae gwasanaethau rhwydwaith y BBC sy'n cael eu darlledu ar DAB ar gael i 89.2% o gartrefi, i fyny o 85.9% y flwyddyn flaenorol, gan fod trosglwyddyddion wedi cael eu hychwanegu at y rhwydwaith. Mae darpariaeth yr amblecsau masnachol ar gyfer cartrefi yn llai yng Nghymru na chyfartaledd y DU. Mae'r amblecs ar gyfer y DU i gyd, Digital One, yn gwasanaethu 64.1% o gartrefi Cymru, sy'n gynydd o 4.1 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall. I gyd gyda'i gilydd, mae'r amblecsau DAB lleol yng Nghymru yn cyrraedd 63.0% o gartrefi a 46.7% o brif ffyrdd.

Ffigur 3.2 DAB mewn cartrefi



Ffynhonnell: BBC, Arqiva, Ofcom, Mehefin 2015

Nodyn: Mae ffigurau'r BBC yn dangos y ddarpariaeth ar ddiwedd 2014

3.4 Patrymau gwrando ar gynnwys sain

Mae mwy o bobl yng Nghymru yn gwrando ar y radio, ac am gyfnodau hwy, nag yn y DU yn gyffredinol

Yn 2014, roedd gwasanaethau radio wedi cyrraedd 94.5% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru (Ffigur 3.3). Dyma gyrhaeddiad uchaf yr holl wledydd, 5 pwynt canran uwchben cyfartaledd y DU. Hefyd, gwrandawyr yng Nghymru oedd yn gwrando ar y radio am y cyfnod hwyaf o'r holl wledydd eraill, sef 22.4 awr yr wythnos ar gyfartaledd – awr yn fwy na chyfartaledd y DU.

Ffigur 3.3 Oriau gwrando a chyrraeddwythnosol cyfartalog: 2014

	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	CYFANSWM Y UK
Oriau gwrando wythnosol	21.5 awr	19.9 awr	22.4 awr	21.6 awr	21.4 awr
Cyrraeddwythnosol	89.4%	86.9%	94.5%	88.9%	89.5%

Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), y flwyddyn a ddaeth i ben Ch4 2014. Caiff cyrraeddwythnosol ei ddiffinio fel canran poblogaeth oedolion yr ardal sy'n gwrando ar orsaf am o leiaf bum munud mewn wythnos arferol.

Yng Nghymru y ceir y gyfran uchaf o bobl sy'n gwrando ar wasanaethau rhwydwaith y BBC


Roedd gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn cynrychioli bron i hanner (49%) yr holl oriau gwrando yn 2014 (Ffigur 3.4). Dyma'r gyfran uchaf o wrandawyr ar gyfer y sector hwn, o'i

gymharu ag unrhyw wlad arall, ac mae'n fwy na dwbl cyfran yr amser gwrando ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith y BBC yng Ngogledd Iwerddon (24%).

Roedd cyfran yr oriau gwrando ar gyfer gorsafodded radio masnachol y DU yng Nghymru ar yr un lefel â Lloegr a chyfartaledd y DU (13%). O holl wledydd y DU, yng Nghymru yr oedd y gyfran isaf o oriau gwrando ar radio masnachol lleol, sef 26%. Yng Nghymru hefyd yr oedd y gyfran isaf o gyfanswm oriau gwrando ar radio masnachol.

Yn 2014, roedd oriau gwrando ar wasanaeth y BBC ar gyfer y gwledydd (BBC Radio Cymru neu BBC Radio Wales) yn cyfrif am 10% o gyfanswm yr oriau gwrando yng Nghymru mewn wythnos arferol. Ac eithrio Gogledd Iwerddon, mae hyn yn uwch na chyfran y sector o oriau gwrando ym mhob gwlad arall, ac yn 2 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU.

Ffigur 3.4 Cyfran o'r oriau gwrando yn ôl gwlad: 2014




Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2014

Bu gostyngiad yng nghynulleidfa BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales yn 2014

Roedd un rhan o bump (20%) o oedolion yn gwrando ar BBC Radio Cymru neu BBC Wales mewn wythnos arferol yn ystod 2014 (Ffigur 3.5). Roedd hyn yn debyg i BBC Radio Scotland, 4 pwynt canran yn uwch na Radio Leol BBC yn Lloegr, ond 16 pwynt canran yn is na chyrhaeddiad wythnosol BBC Radio Ulster.

I gyd gyda'i gilydd, gwelodd BBC Radio Cymru/Wales ostyngiad mwy o un flwyddyn i'r llall mewn cyrhaeddiad wythnosol nag unrhyw un o wasanaethau lleol a chenedlaethol y BBC yng ngwledydd eraill y DU. Roedd hyn wedi'i sbarduno gan ostyngiad o 1.9 pwynt canran yng nghyrhaeddiad BBC Radio Wales.

Ffigur 3.5 Cyrhaeddiad wythnosol gwasanaethau lleol/y gwledydd y BBC: 2014




Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2014

3.5 Y nifer sy'n gwranddo ac yn berchen ar setiau radio digidol

Mae gan bron i hanner yr oedolion yng Nghymru sy'n gwranddo ar y radio set radio ddigidol

Mae bron i hanner yr oedolion (47%) sy'n gwranddo ar y radio yn dweud bod ganddynt o leiaf un set radio DAB gartref. Nid yw hyn wedi newid ers 2014. Nid yw'r nifer sy'n berchen ar radio digidol DAB yng Nghymru yn wahanol i gyfartaledd y DU. Yn yr un modd ag yn 2014, mae pobl sy'n gwranddo ar y radio yn ardaloedd trefol Cymru yn fwy tebygol o fod yn berchen ar set DAB (49%) na'r rhai yn yr ardaloedd gwledig (38%).

Ffigur 3.6 Perchnogaeth setiau radio digidol DAB



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, ton 1 2015


Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n gwranddo ar y radio (n = 2934 y DU, 406 Cymru, 1735 Lloegr, 386 yr Alban, 407 Gogledd Iwerddon, 205 Cymru drefol, 201 Cymru wledig, 854 Cymru 2010, 397 Cymru 2011, 405 Cymru 2012, 383 Cymru 2013, 403 Cymru 2014; 406 Cymru 2015)

DS. Roedd y data yn 2011 yn seiliedig ar y rheini sy'n gwranddo ar y radio ac sydd ag unrhyw setiau radio yn y cartref y mae rhywun yn gwranddo arnynt bob wythnos gan amlaf QP9. Sawl set DAB sydd gennych yn eich cartref?

Cymru welodd y twf uchaf o un flwyddyn i'r llall yn y niferoedd sy'n gwrando ar radio digidol

Ac eithrio Gogledd Iwerddon, roedd y nifer sy'n gwrando ar radio digidol yn cynrychioli'r gyfran leiaf o gyfanswm yr oriau gwando yng Nghymru (32%) ac roedd 5 pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU (Ffigur 3.7). Roedd y twf o un flwyddyn i'r llall yn y nifer sy'n gwrando ar radio digidol yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill gwledydd y DU, ar 3.0 pwynt canran. Roedd cyfran yr oriau gwando ar radio digidol wedi tyfu 1.6 pwynt canran yn y DU yn gyffredinol.


Ffigur 3.7 Y gyfran o oriau gwando drwy lwyfannau digidol ac analog: 2014



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15 oed a hŷn), y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch4 2014 DS. Mae 'lwyfannau digidol' yn cyfeirio at wasanaethau radio y gellir cael mynediad atynt drwy ystod o ddyfeisiau. Mae hyn yn cynnwys radios digidol DAB, teledu digidol, a dyfeisiau sy'n cysylltu i'r rhyngwrwyd, megis radios un pwrpas sy'n cynnwys cysylltiad WiFi, cyfrifiaduron personol yn y cartref, a ffonau symudol y gellir eu defnyddio i gysylltu â'r rhyngwrwyd.

Gwelwyd twf cyson a pharhaus yn y gyfran sy'n gwrando ar lwyfannau digidol ers 2010 (Ffigur 3.8). Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae'r niferoedd sy'n gwrando ar radio digidol yng Nghymru wedi cynyddu 20 pwynt canran.

Ffigur 3.8 Y gyfran o oriau gwando drwy lwyfannau digidol ac analog yng Nghymru: 2007-2014



Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn, blynyddoedd calendr 2007-2014


3.6 Y diwydiant radio

Cymru oedd yr unig wlad lle'r roedd y refeniw ar gyfer gorsafoedd masnachol lleol wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall

Gostyngodd refeniw radio masnachol lleol yng Nghymru 2.9% i £14.9m yn 2014, yr unig wlad yn y DU lle'r oedd refeniw wedi gostwng. Wedi'u haddasu ar gyfer maint y boblogaeth, disgynnodd y refeniw yng Nghymru 14 pwynt canran y pen. Ar £4.84, yng Nghymru yr oedd y refeniw radio masnachol lleol isaf y pen o holl wledydd y DU.

Yn wahanol i refeniw masnachol lleol, mae gwariant y BBC ar gynnwys y pen o'r boblogaeth ar gyfer y gorsafoedd lleol/y gwledydd yng Nghymru gryn dipyn yn uwch na refeniw gwledydd eraill y DU. Roedd gwariant y BBC yng Nghymru hefyd wedi cynyddu'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, gyda 98 pwynt canran ychwanegol yn cael ei wario y pen. Roedd hyn yn mynd â gwariant ar gynnwys i £14.70 y person.

Ffigur 3.9 Gwariant a refeniw radio lleol/y gwledydd y pen o'r boblogaeth: 2014-15



Ffynhonnell: Darlledwyr

Nodyn: Mae cyfanswm y DU yn dangos y cyfartaledd ar gyfer radio masnachol lleol ar draws y pedair gwlad ac felly nid yw'n cynnwys refeniw ar gyfer y gorsafoedd masnachol sy'n darlledu ar draws y DU: Classic FM, talkSPORT, ac Absolute.